Datganiad Deddf Caethwasiaeth Fodern

Mae Coleg Cambria yn credu ei fod yn hanfodol iddo gaffael nwyddau a gwasanaethau, heb achosi niwed i eraill, ac mae'n gwbl ymrwymedig i weithredu'n foesegol ac â chywirdeb yn ei holl drafodion busnes a pherthnasoedd.

Wrth wneud hyn, mae'r Coleg yn cefnogi ymagwedd Llywodraeth y DU i weithredu Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol, drwy roi gwybod i'n staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid am ein polisi o ran caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur dan orfodaeth a llafur bondio, a throseddau yn erbyn hawliau llafur yn ei gadwyni cyflenwi.

Mae Coleg Cambria yn cymryd camau i sicrhau tryloywder yn ei gadwyni cyflenwi ac mae'n argymell parchu hawliau dynol, osgoi llafur plant, ac ecsbloetio yn ei ymrwymiad i sicrhau caffael cynaliadwy a chyfrifol.

Mae Coleg Cambria wedi nodi'r categorïau canlynol fel rhai risg uchel - Dillad, Bwyd ac Offer TGCh. Felly , mae'r rhain yn feysydd lle y bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion arnynt.

Gofynnir i gyflenwyr yn y meysydd hyn i ymrwymo i'r Cod Sylfaen y Cynllun Masnachu Moesegol (ETI), fel lleiafswm. Mae'r Cod Sylfaen ETI yn seiliedig ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god o arferion llafur a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol ac sy'n gofyn am:

- Ddewis cyflogaeth yn wirfoddol
- Parchu rhyddid cymdeithasiad a'r hawl i fargeinio ar y cyd
- Amodau gwaith diogel a hylan
- Peidio â defnyddio llafur plant
- Talu cyflogau byw
- Peidio â chael oriau gwaith gormodol
- Peidio ag arfer gwahaniaethu
- Cynnig cyflogaeth reolaidd
- Peidio â chaniatáu triniaeth arw neu annynol.

Gan edrych i'r dyfodol, mae Coleg Cambria yn mynegi ei ymrwymiad i:

- Ddeall ein cadwyni cyflenwi yn well a gweithio tuag at well dryloywder a chyfrifoldeb tuag at y bobl sy'n gweithio ynddynt.
- Monitro meysydd sy'n cynrychioli risg, gan weithio gyda chyflenwyr, sefydliadau fframwaith a masnachfreintiau, i fonitro'r cadwyni cyflenwi hynny'n agos.
- Lliniaru risg caethwasiaeth a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a gweithredu camau priodol fel bo'r gofyn.

Mae ymrwymiad y Coleg o ran asesu risg a chaffael moesegol, sy'n ymgorffori egwyddorion Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mewn unrhyw weithgaredd caffael, yn cefnogi lliniaru'r risgiau a nodwyd uchod.

Hyd yma nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw weithgareddau masnachu pobl / caethwasiaeth yn ein cadwyn cyflenwi, ond petaem yn cael gwybod am hynny, yna, byddem yn gweithredu ar unwaith yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol.

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i'n gwaith gyda'n partneriaid i gyd, gan gynnwys masnachfreintiau.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54 (1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n ffurfio datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl y Coleg ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021.

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gorff Llywodraethol Coleg Cambria ar 14 Rhagfyr 2021, a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad o'r Datganiadau Ariannol.

Signed: T. J. Wheeler

PROFESSOR TJ WHEELER

Cadeirydd

Date: 14 Rhagfyr 2021

Signed:

Y WILLIAMS

Prif Weithredwr

Date: 14 Rhagfyr 2021